Ysgol Penrhyn-coch

Gyda siom fawr y clywsom am farwolaeth Mr Edmund J.Thomas. Fel un o rieni'r ysgol bu'n hynod o garedig wrthym ac yn barod iawn i'n cefnogi bob tro. Cydymdeimlwn yn fawr â Mrs Thomas, Graham a David Ian a'r perthnasau i gyd yn eu hiraeth a'u colled.

Trist iawn hefyd oedd clywed am farwolaeth Mrs Rees Jones, Bodèlwy. 'Roedd yr ysgol yn agos at ei chalon hithau a chofiwn am gyfraniad ei phriod y diweddar Mr Rees Jones fel prifathro am gyfnod maith.

Bu'r plant er gwaethaf pob salwch, yn eithaf prysur yn paratoi ar gyfer dathlu Gŵyl Ddewi. Hyfryd oedd gweld cynifer o'r merched yn eu gwisgoedd traddodiadol Cymreig. Cafwyd cyngerdd prynhawn Gwener a chystadlu brwd yn yr arlunio a'r adran lenyddol.

Y Nos Wener gyntaf ym Mawrth cafwyd Gyrfa Chwilen yn Neuadd yr Ysgol. Cafodd y rhieni a'r plant hwyl arbennig. Yr oedd y noson yng ngofal Mr Glyn Collins. Rhaid diolch i bawb am bob cyfraniad. Gwerthfawrogwn eich cymorth a'ch cefnogaeth. Y mae diolch yn ddyledus hefyd i'r rhai hynny a roddodd deisennau ar gyfer y stondin a oedd gennym. Gwnaed elw sylweddol i Gronfa'r Ysgol.

Dymunwn y gorau i John Allsopp, Andrew Davies, Meurig Evans a Graham Thomas a fydd dros y Pasg yn chwarae pêl-droed yn St.Brieuc. Pob hwyl i Lynwen Jenkins hefyd a fydd yn cystadlu mewn nofio. 'Rydym fel ysgol yn llawen iawn eich bod chwi eich pump wedi eich dewis yn eich gwahanol feysydd i gynrychioli'r cylch.